



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:	WGC 004/2018	Dyddiad cyhoeddi:	09 / 05M / 2018
Statws:	Er gwybodaeth		
Teitl:	Diwygiad i Reoliadau Adeiladu a Dogfennau Cymeradwy i Gymru		
Cyhoeddwyd gan:			
Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu			
Cyfeiriwyd at:		Anfonwch ymlaen at:	
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol Cyngor y Diwydiant Adeiladu Fforwm Personau Cymwys		Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Aelodau Cynulliad	
Crynodeb:			
Bwriad y cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at ddiwygiadau i Reoliadau Adeiladu, Dogfen Gymeradwy Newydd Q, a'r slip diwygio Dogfen Gymeradwy G i Gymru.			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
Paul Keepins - Rheoliadau Adeiladu Swyddfeydd Llywodraeth Cymru Merthyr Tudful CF48 1UZ		Llinell Uniongyrchol: 03000 628646 E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru Gwefan: http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?skip=1&lang=cy	

Cylchlythyr

Deddf Adeiladu 1984

Rheoliadau Adeiladu 2010

- **Diwygiadau i Rhan G (Glanweithdra, Diogelwch Dŵr Poeth ac Arbed Dŵr) Atodlen 1**
- **Newidiadau i Ddogfen Gymeradwy G (Glanweithdra, Diogelwch Dŵr Poeth ac Arbed Dŵr)**
- **Gofyniad newydd Rhan Q (Diogelwch) o Atodlen 1**
- **Dogfen Gymeradwy Newydd Q (Diogelwch)**
- **Diwygio Rheoliad 47 (Torri rheoliadau penodol yn peidio â bod yn drosedd)**

Cyflwyniad

1. Rwyf wedi fy nghyfarwyddo gan Weinidogion Cymru i dynnu eich sylw at Reoliadau Adeiladu (Diwygio)(Cymru) 2018 ("Rheoliadau Diwygio") sy'n diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 fel y'i diwygiwyd (O.S. 2010/2214) (y "Rheoliadau Adeiladu"). Daw y newidiadau hyn i rym o'r 1 Tachwedd 2018.
2. Rwyf hefyd wedi fy nghyfarwyddo gan Weinidogion Cymru i dynnu eich sylw at y gymeradwyaeth o dan Adran 6 Deddf Adeiladu 1984 ar gyfer;
 - diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy G sy'n cefnogi Rhan G (Glanweithdra, Diogelwch Dŵr Poeth ac Arbed Dŵr) a;
 - Dogfen Gymeradwy Q newydd (Diogelwch).
3. Yn unol ag adran 14 (7) o Ddeddf Adeiladu 1984, cafodd y Rheoliadau Diwygio eu gwneud ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ac â'r cyrff eraill sydd yn cynrychioli'r buddiannau o dan sylw.
4. Diben y Cylchlythyr hwn yw:
 - tynnu sylw at y diwygiadau yn y Rheoliadau Adeiladu.
 - tynnu sylw at Ddogfen Gymeradwy Q a'r slip diwygio ar gyfer Dogfen Gymeradwy G.

Cwmpas

5. Mae'r Cylchlythyr yn berthnasol i'r holl waith adeiladu sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

DIWYGIADAU I REOLIADAU ADEILADU 2010

6. Mae Atodiad A y Cylchlythyr hwn yn nodi mewn tabl yr holl newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu.
7. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio rheoliad 36 (arbed dŵr mewn anheddau newydd) i gyflwyno gofyniad newydd sy'n datgan pan fo annedd yn cael ei godi nad ddylai dros 110 litr y dydd o ddŵr dihalog gael ei yfed. Mae'r gofyniad presennol o 125 litr y person y dydd yn parhau ble y bydd newid defnydd sylweddol er enghraifft pan fo adeilad yn cael ei ddefnyddio fel annedd neu yn cynnwys fflat, pan nad oedd yn wreiddiol.
8. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn ychwanegu paragraff G2A (effeithlonrwydd dŵr adeiladau newydd ar wahân i anheddau ac adeiladau gofal iechyd) i Ran G (glanweithdra, diogelwch dŵr poeth ac arbed dŵr) o Atodlen 1 (gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu). Nid yw'r gofyniad newydd yn berthnasol i anheddau neu adeiladau gofal iechyd.
9. Mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn diwygio rheoliad 47 (Torri rheoliadau penodol yn peidio â bod yn drosedd). Effaith y diwygio yw dynodi rheoliadau 23 (gofynion i adnewyddu neu newid elfennau thermol), 25B (gofynion bron yn niwtral o ran defnydd ynni ar gyfer adeiladau newydd) a 26 (cyfraddau allyriadau CO2 ar gyfer adeiladau newydd) at ddibenion adran 35 Deddf Adeiladu 1984 (cosb am dorri rheoliadau adeiladu) i'r graddau y bo'r rheoliadau hynny yn berthnasol i adeiladau y Goron neu i waith adeiladu sy'n cael ei gynnal neu y bwriedir ei gynnal gan awdurdodau'r Goron.
10. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn ychwanegu Rhan Q (Diogelwch) i Atodlen 1. Mae'r gofyniad newydd hwn yn berthnasol i godi anheddau.
11. Mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn cynnwys darpariaethau trosiannol.

Dogfennau Cymeradwy G a Q

12. Mae'r Dogfennau Cymeradwy yn darparu canllawiau statudol ar gymhwyso a chydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.
13. Mae slip diwygio, "*Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy G*", ar gael i gydfynd â'r Cylchlythyr hwn ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r slip diwygio yn rhoi amlinelliad o'r diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy G.
14. Mae Dogfen Gymeradwy Q newydd (Diogelwch) ar gael ochr yn ochr â'r Cylchlythyr hwn ar wefan Llywodraeth Cymru.
15. Mae hysbysiad cymeradwyaeth i'r Dogfennau Cymeradwy yn Atodiad B.
16. Mae copi electronig o'r "*Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy G*" a "*Dogfen Gymeradwy Q*" ar gael ar:
<https://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?lang=cy>

Cyngor Pellach

17. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r Cylchlythyr hwn, cysylltwch â:

Rheoliadau Adeiladu
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffôn : 0300 062 8646

E-bost : enquiries.brconstruction@gov.wales

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Francois Samuel". The signature is written in a cursive style with a large initial 'F' and 'S'.

Francois Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru

Atodiad A

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2018

O.S. 2018 Rhif. 552 (Cy.94)

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r holl newidiadau a wnaethpwyd gan O.S. 2018 Rhif. 552 (Cy.94) i Reoliadau Adeiladu 2010:

O.S. 2010/2214 Rhif y Rheoliad	O.S. 2018/552 (Cy.94) Rhif y Rheoliad	Cam Gweithredu
36	3(1)	<u>Arbed Dŵr mewn anheddau newydd</u> Diwygio rheoliad 36 (arbed dŵr mewn anheddau newydd) i gyflwyno gofyniad newydd i sicrhau, pan fo annedd yn cael ei godi, na fydd dros 110 litr y person y diwrnod o ddŵr dihalog yn cael ei yfed gan bersonau sy'n byw yn yr annedd. Mae'r gofyniad presennol o 125 litr y person y dydd yn parhau pan fydd newid defnydd sylweddol megis pan fo adeilad yn cael ei ddefnyddio fel annedd neu yn cynnwys fflat, ble nad oedd yn wreiddiol.
37(1)	3(2)	<u>Cyfrifo faint o ddŵr dihaolg sy'n cael ei yfed.</u> Hepgor y geiriau "a gyfrifwyd yn unol â'r fethodoleg y cyfeirir ato yn y rheoliad hwnnw" o baragraff 37(1).
Atodlen 1 Rhan G	3(3)	Mae Atodlen 1 (gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu) yn Rhan G (glanweithdra, diogelwch dŵr poeth ac arbed dŵr.) yn ychwanegu paragraff G2A (arbed dŵr mewn adeiladau newydd ar wahân i anheddau ac adeiladau gofal iechyd) i Ran G (glanweithdra, diogelwch dŵr poeth ac arbed dŵr) o Atodlen 1 (gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu). Nid yw'r gofyniad newydd yn berthnasol i anheddau neu adeiladau gofal iechyd.
47	4	<u>Torri rheoliadau penodol yn peidio â bod yn drosedd</u> Dynodi rheoliadau 23 (gofyniadau i adnewyddu neu ddisodli elfennau thermol), 25B (bron yn ofynion niwtral o ran defnydd ynni ar gyfer adeiladau newydd) a 26 (cyfraddau allyriadau CO2 ar gyfer adeiladau newydd) at ddibenion adran 35 Deddf Adeiladu

		1984 (cosb am dorri rheoliadau adeiladu) i'r graddau y bo'r rheoliadau hynny yn berthnasol i adeiladau'r Goron neu i waith adeiladu
Atodlen 1	5	<u>Rhan Q (Diogelwch)</u> Ychwanegu Rhan Q (Diogelwch) i Atodlen 1. Mae'r gofyniad newydd hwn yn berthnasol i godi anheddau.
-	6	<u>Darpariaeth drosiannol</u> Yn cynnwys y ddarpariaeth drosiannol.

Atodiad B

DEDDF ADEILADU 1984

HYSBYSIAD CYMERADWYO DOGFEN AT DDIBENION RHOI ARWEINIAD YMARFEROL MEWN PERTHYNAS Â GOFYNION RHEOLIADAU ADEILADU 2010		
<p>Mae Gweinidogion Cymru, wrth ymarfer y pwerau a roddwyd iddynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6 Deddf Adeiladu 1984, sydd bellach yn cael eu harfer gan Weinidogion Cymru drwy Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau)(Rhif 2) 2009 (O.S 2009/3019) drwy hyn yn hysbysu eu bod wedi cymeradwyo'r ddogfen a restrir isod at ddibenion rhoi arweiniad ymarferol mewn perthynas â gofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r gymeradwyaeth hon yn dod i rym yn unol â'r tabl a restrir isod o ran y gwaith sydd wedi dechrau yn unol â hysbysiad i gorff rheoli adeiladu neu hysbysiad i gorff rheoli adeiladu cyn i'r dyddiad dod i rym a'r gwaith adeiladu ddechrau o fewn cyfnod o ddeuddeg mis i'r dyddiad a restrir isod.</p>		
Dogfen	Darpariaethau y Rheoliadau Adeiladu at y dibenion a gymeradwyir yn y ddogfen	Dyddiad y mae'r gymeradwyaeth i ddod i rym
Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwyo G	Rhan G o atodlen 1	1 Tachwedd 2018
Dogfen Gymeradwy Q	Rhan Q o Atodlen 1	1 Tachwedd 2018

Mae'r Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2018 O.S. 2018/552 (Cy.94) ar gael ar y ddolen isod:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/552/contents/made>